


GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Cylchlythyr **Optometreg**

Medi 2022

## Trydedd Flwyddyn y Cymrodyr Optometreg!

**Mae dau optometrydd, Kath Lowry ac Eleanor Thomas, newydd gychwyn arni fel Cymrodyr Hyfforddiant Arweinyddiaeth Glinigol Cymru AaGIC (WCLTF).**

Mae'r gymrodoriaeth yn rhoi cyfle iddynt gymryd blwyddyn o seibiant cyflogaeth i ganolbwyntio ar weithgareddau'n ymwneud ag arweinyddiaeth a gwella ansawdd drwy gyfrwng prosiect cydweithredol gydag AaGIC. Yn ystod y flwyddyn, mae cymrodyr yn ymroi i raglen eang ac amrywiol o hyfforddiant arweinyddiaeth ac yn cael y cyfle i gysgodi arweinwyr ar draws meysydd iechyd, addysg a hyfforddiant. Mae'r Cymrodyr yn cael eu cydnoddi gan Lywodraeth Cymru ac mae'r fenter wedi bod yn llwyddiant ysgubol ers ei lansio ychydig flynyddoedd yn ôl.

Mae Kath yn arwain ar brosiect i ddatblygu rhaglen gymorth ar gyfer optometryddion sy'n ysgwyddo rolau clinigol ychwanegol newydd. Arwain y gwaith o ddatblygu fframwaith uwch-ymarfer y mae Eleanor, sy'n cynnwys rhaglen gwella ansawdd ar gyfer optometreg.

Dyma'r trydydd tro i optometryddion gael eu penodi'n Gymrodyr Hyfforddiant Arweinyddiaeth Glinigol Cymru; cyfle unigryw nad yw'n cael ei gynnig i optometryddion yn unman arall yn y DU.



**Kath Lowry**



**Eleanor Thomas**

## Intern Optometreg

**Mae Nazia Rahman, ein hintern optometreg dros yr haf, wedi bod yn brysur yn gweithio ar brosiect. Mae hi wedi bod yn cysylltu â goruchwylwyr cyn-gofrestru ac yn casglu data trwy holiaduron cyn-gofrestru. .**



Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth i'n helpu i gynorthwyo ein hoptometryddion a'n goruchwylwyr cyn-gofrestru'n well i'r dyfodol yn ogystal â'n hoptometryddion newydd gymhwyso. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r rhai ohonoch a roddodd o'ch amser i lenwi'r holiaduron neu i sgwrsio â Nazia. Diolch o galon ar ran holl aelodau'r tîm optometreg yn AaGIC.

## Contract newydd

**Rydym wedi bod yn paratoi i ddatblygu ein hadnoddau ar-lein i ategu'r contract newydd sydd ar y gorwel.**

Bydd ein cynnig addysg a chymorth:

1. **yn gymesur** ac yn unol â'r hyn a ddisgwylir gan wasanaethau,
2. **yn gynhwysol** ac yn cynorthwyo'r dysgwr ar ei daith ddysgu
3. **yn cael ei ddatblygu'n barhaus** yn dilyn adborth ac archwiliadau rheolaidd gan y gwasanaeth.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i gynghori'n daer yr holl optometryddion yng Nghymru, nad ydynt eisoes wedi cael eu hachredu i gynnal archwiliadau EHEW yng Nghymru, i gysylltu â ni cyn gynted â phosibl i baratoi ar gyfer y diwygiadau i wasanaeth GOS Cymru. Mae'r manylion cyswllt ar waelod y cylchlythyr hwn.

# Aelod newydd o staff a ffarwel diffuant

**Gyda chalon drom rydym yn ffarwelio ag un o hoelion wyth Hyfforddiant ac Addysg Golwg Gwan, Rebecca Bartlett.**

Symudodd Rebecca i AaGIC gyda gweddill y tîm o Brifysgol Caerdydd, ac mae hi wedi bod yn datblygu ein hyfforddiant Golwg Gwan dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae Rebecca'n gadael ei swydd i ddod yn un o'r arweinwyr clinigol newydd ar gyfer GOS yng Nghymru, sy'n gyffrous tu hwnt. Byddwn i gyd yn gweld eisiau Rebecca ond byddwn yn cydweithio'n agos â hi yn y dyfodol a bydd digon o gyfleoedd i ailgwrdd, felly dyma ddymuno hwyl am y tro gan edrych ymlaen i dy weld yn fuan!

Wrth lwc, rydym yn falch iawn o gyhoeddi y bydd Kaiya Anwar yn ymuno â ni'n barhaol fel ein Harweinydd Addysg a Hyfforddiant Golwg Gwan. Mae Kaiya wedi ymdoddi'n berffaith i'r tîm ac mae hi'n edrych ymlaen at barhau i adeiladu ar y gwaith anhygoel y mae Rebecca wedi'i sefydlu.

Dywedodd Kaiya, '**Rydw i wir yn mwynhau gweithio fel rhan o'r tîm Optometreg yn AaGIC. Rydw i'n teimlo ein bod ni i gyd yn gweithio'n effeithlon ac ar y cyd, gyda phob aelod o'r tîm yn meddu ar sgiliau amrywiol sy'n ategu ei gilydd.**

**Mae gennym ni lawer o gynlluniau i'w gweithredu dros y flwyddyn nesaf o ran trawsnewid y rhaglen hyfforddi ar gyfer Golwg Gwan, ond rydw i'n ffyddiog y bydd modd inni gyflawni'r gwaith. Rydw i'n llawn cyffro ynglŷn â beth ddeil y dyfodol ar gyfer hyfforddiant Golwg Gwan wedi'i draddodi drwy AaGIC**'.



**Kaiya Anwar**

# Digwyddiadau: y gorffennol, y presennol, a'r dyfodol

## Digwyddiad DPP Optometreg a Fferylliaeth AaGIC

Cynhaliwyd digwyddiad DPP rhithwir ar y cyd rhwng y timau Optometreg a Fferylliaeth yn AaGIC, ar 11 Mai 2022, o dan y teitl 'Pa wahaniaeth y mae rhagnodwyr annibynnol yn ei wneud i ddarpariaeth gwasanaethau gofal llygaid yn y gymuned?' Roedd hon yn noson lwyddiannus iawn gyda thua 150 o gydweithwyr yn ymuno i ddeall sut mae gwasanaethau rhagnodi annibynnol yn gweithio ymysg y ddau broffesiwn, a'r potensial ar gyfer mwy o gyfathrebu a chydweithio. Os nad oedd modd i chi fynychu ond bod gennych ddiddordeb mewn dysgu rhagor am y digwyddiad, e-bostiwch **Heiw.optometry@wales.nhs.uk** i gael gwybod sut i gyrchu'r recordiad.

## Wythnos Iechyd Llygaid 19-25 Medi

Byddwn yn cynnal sawl digwyddiad ym mis Medi ac yn cynnal gweminar IP optometreg i gyd-fynd â'r wythnos iechyd llygaid. Gweler y manylion isod. Da chwi, ymunwch â ni os gallwch.

## Rhagnodi Annibynnol yn y Gwyllt; profiadau gan optometryddion cymwys (IP) ledled Cymru

Digwyddiad DPP rhithwir ddydd Mercher 21 Medi 2022, 7.30-9pm. Gan adeiladu ar y diddordeb hwnnw yn ein digwyddiad ar y cyd rhwng Optometreg a Fferylliaeth, bydd y digwyddiad hwn yn archwilio rhagnodi annibynnol ym maes optometreg yn fanylach. Byddwn yn archwilio'r llwybr sy'n eich tywys at gymhwyster IP ac yn clywed gan banel o optometryddion profiadol sydd â chymwysterau IP. Byddwn hefyd yn ymdrin ag achosion clinigol diddorol. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael â'r cwestiynau cyffredin hynny ynghylch y modd o gyrchu gwasanaethau IP yng Nghymru. Anfonwch e-bost at HEIW.Optometry@wales.nhs.uk i gael manylion ynghylch sut i gofrestru.

## HEIW Event for Foundation Digwyddiad AaGIC ar gyfer Fferyllwyr Sylfaen ac Optometryddion Cyn-gofrestru yng Nghymru

Digwyddiad DPP rhithwir ddydd Mercher 28 Medi 2022, 7-8.30pm. Digwyddiad rhithwir yw hwn ar gyfer optometryddion cyn-gofrestru a fferyllwyr sylfaen. Byddwn yn gwyntyllu Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW), y Cynllun Anhwylderau Cyffredin a ffyrdd o wella cyfathrebu. Bydd cyflwyniadau byr ac achosion i'w hadolygu gan gymheiriaid (mewn grwpiau bach o optometryddion a fferyllwyr).

# Golwg Gwan mewn niferoedd

**3,152,879**
total population

**111,000**
people living with sight loss

**13,137**
registered blind or partially sighted

**1,455**
Certificates of Vision Impairment in 2018/19

**£1,438,000,000**
Estimated costs of sight loss every year.

(RNIB, 2022)



**198**

Number of practitioners currently providing the Low Vision Service Wales (across 212 Practices).

(LVSW, 2022)

**32%**

Increase in number of people with sight loss by 2030.

(RNIB 2022)

**2 million**
people living with sight loss with
**360,000**
registered as Sight Impaired (SI) and Severely Sight Impaired (SSI).

(NHS Wales, 2022).

**7,864**

Low Vision Assessments completed in 21/22 alone.

**2,571**

Low Vision Assessments completed in 22/23 (until July 2022).

**115,576**

Low Vision Assessments completed since the Low Vision Service Wales commenced in 2004.

(LVSW, 2022)

## SIGHT & SEVERELY SIGHT IMPAIRED PEOPLE

**25 %**
are in work

**40%**
moderately or completely cut off

**17%**
offered emotional support with sight loss

**75%**
have experienced a deterioration in sight over the last 12 months

(RNIB, 2022)

**1 in 5**

people will start to live with sight loss in their lifetime.

(RNIB, 2022)

**250** people start to lose their sight every day in the U.K.

(RNIB, 2022)

## MAIN CAUSES OF SIGHT LOSS

**39%**
Uncorrected refracted error

**23%**
Age-related Macular Degeneration

**19%**
Cataract

**7%**
Glaucoma

**5%**
Diabetic eye disease

(NHS, 2022)

**2004**


Low Vision Service Wales was launched allowing practitioners with low vision qualifications to autonomously manage low vision service users in the community reducing the strain on secondary services.

# Lansio'r Adeilad Gofal Llygaid yn Nhregyrfa
## 23 Medi 2022

**Cysyniad yw Tregyrfa a lansiwyd yn wreiddiol ar gyfer disgyblion ysgol blynyddoedd 9-11 (14-16 mlwydd oed) yn ystod Hydref 2021 drwy gyfrwng digwyddiad cwbl ddwyieithog (Cymraeg/Saesneg).**

Y nod oedd codi proffil y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae wedi'i ddatblygu fel pentref rhyngweithiol gydag adeiladau amrywiol yn cynrychioli'r gwahanol weithleoedd iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r adeilad Gofal Llygaid wedi bod yn cael ei ddatblygu ac rydym bellach yn falch o gyhoeddi y bydd yn agor ei ddrysau ar 23 Medi! Mae'r adeilad yn cynnwys lloriau ar gyfer yr Optometrydd, CLO/DO a'r Orthoptydd, y mae mynediad iddynt drwy'r lifft rhithwir. Rydym yn gobeithio y bydd y cyfuniad o bosteri gwybodaeth, blogiau a fideos yn codi ymwybyddiaeth o rolau ym maes gofal llygaid ac yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o weithwyr proffesiynol gofal llygaid.

Tregyrfa: **https://careersville.heiw.wales/cy/gofal-llygaid**




## E-byst cyswllt

**heiw.optometry@wales.nhs.uk**
Ymholiadau cyffredinol neu hyfforddiant ac achrediad EHEW

**nwssp-primarycareservices@wales.nhs.uk**
Ymholiadau clinigol EHEW neu ymholiadau ynghylch rheolaeth EHEW

**HEIW.OptometryLVS@wales.nhs.uk**
Hyfforddiant ac achrediad Golwg Gwan

**Low.vision@wales.nhs.uk**
Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru - ymholiadau clinigol, ar sail rheolaeth neu ddarpariaeth gwasanaethau